Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.7 Treth ar werth

Nid treth ar elw yw treth ar werth (TAW) ond mewn hanfod mae'n dreth ar bryniant, (mewn theori) a wneir gan y prynwr olaf. Mae TAW yn dreth a godir ar drosiant a gyfrir ar werth, gwir neu dybiedig, y cyflenwad nwyddau a gwasanaethau a elwir yn 'gyflenwadau trethadwy', a gyflenwir gan y trethdalwr cofrestredig.

Beth yw'r cyflenwadau trethadwy?

Mae cyflenwadau trethadwy yn cynnwys bob math o nwyddau a gwasanaethau ar wahân i'r rhai sydd yn y rhestrau cyfradd sero neu eithriad. Rhaid defnyddio'r cyflenwadau yma 'yn ystod neu er mwyn hyrwyddo'r busnes'. Mae diffiniad 'busnes' yn eang yn gyfreithiol, a gall gynnwys gweithgareddau heblaw am rhai masnachol neu'r rhai sy'n gwneud elw.

Cofrestru

Mae'n bwysig fod mudiadau gwirfoddol yn ystyried eu sefyllfa TAW, ac os ydynt o'r farn ei fod naill ai'n angenrheidiol neu'n fuddiol iddynt (neu'r ddau), dylent gofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ar gyfer TAW - hyd yn oed cyn i incwm y gweithgareddau busnes fynd dros y terfyn. Gall cofrestru hwyr arwain at gosb.

Yn annhebyg i fusnes masnachol, sy'n cenhedlu incwm drwy ddarparu a gwerthu nwyddau neu wasanaethau, mae gan elusen amrywiaeth gymhleth o ffynonellau incwm.
Mae rhai o'r gwasanaethau yma, megis rhoddion, etifeddiaeth a grantiau yn cael eu rhoi am ddim heb dderbyn nwyddau neu wasanaethau yn eu lle.

Yn nhermau TAW, deillir y fath incwm o weithgareddau heb fod yn fasnachol, ac felly nid ydynt yn rhan o TAW.

Ar y llaw arall, Gellir edrych ar werthiant nwyddau a gynhyrchir gan y buddiolwyr neu wasanaethau a ddarperir i'r aelodau fel 'gweithgaredd busnes' ac felly'n amodol ar TAW. Mae gan y gair 'busnes' ystyr eang ar gyfer pwrpasau TAW. Mae'n haws diffinio'r gweithgaredd fel 'busnes' os nad yw'n glir ei fod tu allan i gwmpas TAW.

Cymhwysir TAW ar raddfeydd amrywiol - ar hyn o bryd mae yna dair gradd yn y DU:

- safonol 17.5%
- gostyngol 5%
- sero 0%

Rhaid i fudiad gwirfoddol a gofrestrodd ar gyfer TAW, godi tâl TAW ar gyflenwadau nwyddau busnes fel bo angen. Fodd bynnag, mae'r mudiad gwirfoddol wedyn mewn sefyllfa i adennill peth neu'r cyfan o'r TAW yn ôl.

Lleihau TAW anadferadwy

Y brif broblem ynghylch elusennau a TAW yw TAW anadferadwy. Mae llawer iawn o incwm y sector naill ai'n eithriedig o TAW neu du allan i'r cwmpas. Golyga hyn nad oes allbwn TAW yn erbyn mewnbwn TAW ar bwrcasau. Ni ellir pasio ymlaen y mewnbwn TAW ac mae'n aros gyda'r mudiad fel cost ychwanegol.

Y prif ddiben bydd lleihau maint y TAW anadferadwy, oherwydd ni ellir pennu'r mewnbwn TAW i gyd yn erbyn yr allbwn trethadwy.

Peth doeth fyddai ymgynghori â phobl broffesiynol i uchafu ad-daliad TAW.

Rhyddhad rhannol

Mae gan rai elusennau gymysgedd o incwm sy'n eu rhoi yn rhannol rydd (os ydynt wedi cofrestru am TAW) oherwydd eu cymysgedd allbwn. Mae mudiad yn rhannol rydd os oes ganddo gymysgedd o incwm trethadwy a rhydd. Fel arfer, ni ellir ad-dalu TAW ar gostau ble mae'n berthnasol i incwm busnes a eithriwyd. Fodd bynnag, os yw'r dreth a eithriwyd yma o dan derfyn gosodedig, gellir ei ad-dalu. Rhaid gweithio hyn allan ar gyfer pob dychweliad TAW. Gelwir hyn yn gyfrifiad rhannol eithriedig.

Consesiwn TAW i elusennau

Rhaid i fudiadau gwirfoddol ac elusennau dalu TAW ar nwyddau a gwasanaethau, yn union fel busnesau. Os ydynt wedi cofrestru ar gyfer TAW, rhaid hefyd codi tâl am TAW (treth allbwn) ar y nwyddau a'r gwasanaethau a gyflenwir i eraill, heblaw bod y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y tu allan i gwmpas TAW, ar raddfa sero neu'n eithriedig.

Fodd bynnag, mae yna dri chonsesiwn TAW yn arbennig ar gyfer elusennau parthed incwm:

- gradd sero ar gyfer gwerthiant nwyddau a roddir i'r elusen.
- gradd sero ar gyfer rhodd unrhyw nwyddau i'w gwerthu neu'u hallforio gan elusen.
- Posibiliad eithrio pob incwm a fyddai fel arall yn radd safonol o ddigwyddiad codi arian.

Wrth gwrs, mae yna gonsesiynau eraill a ellir manteisio arnynt gan elusennau parthed incwm fel y nodwyd uchod, yn arbennig felly - eithriad addysg, iechyd a lles, ond nid yw'r rhain yn benodol ar gyfer elusennau.

Nwyddau a roddir i elusen

Mae gwerthiant gan elusen o unrhyw nwyddau a roddwyd i'r elusen hynny yn radd sero. Heb y consesiwn yma, byddai peth o enillion y gwerthiant yn mynd i'r Trysorlys yn hytrach na'r elusen. Hefyd, mae pob TAW a roddir ar gostau gwaredu nwyddau rhoddedig yn gwbl adferadwy.

Yn dilyn Cyllideb 1991, gall pob elusen a'u masnachau atodol elwa o radd sero. Rhaid i bob nwyddau a brynir fel nwyddau i'w hail-werthu ac wedyn a werthir fod ar raddfa safonol, os nad ydynt yn nwyddau gradd sero megis llyfrau.
Bydd nwyddau a brynir ar gyfer eu hail-werthu ac a fyddai ar radd sero mewn sefyllfa fasnachol normal, yn aros ar radd sero, er enghraifft, llyfrau a phamffledau.

Gradd sero ar gyflenwadau i elusen

Dyma gyflenwadau a brynir gan elusen heb TAW (Gradd sero).
Mae'r rhain yn gyflenwadau penodol a rhaid cwrdd â'r amodau er mwyn i'r elusen elwa oddi arnynt.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llyfrau Siarad i'r Dall
- Hysbysebu
- Cynhyrchion Meddygol
- Peth cyfarpar ar gyfer defnydd meddygol neu filfeddygol
- Gwasanaethau adeiladu

Dylid ceisio cyngor proffesiynol ar gymhwyster y radd sero yn y meysydd yma cyn archebu gyda chyflenwyr.

Gradd ostyngol ar gyflenwadau i elusen

Gall nifer cyfyngedig o gyflenwadau gynhwyso ar gyfer gradd ostyngol pan fyddant ar gyfer elusen.

Dyma'r cyflenwadau:

- Tanwydd a Phŵer
- Rhai deunyddiau arbed ynni a osodir mewn adeilad

Nwyddau a roddir gan elusen

Mae unrhyw nwyddau a roddir ar gyfer eu gwerthu neu a allforir gan elusen ar radd sero. Er bod y consesiwn yma yn berthnasol i werthu, mae ei effaith llesol ar fewnbwn. Mae hawl gan elusennau adennill TAW ar nwyddau a ddosberthir dramor. Cyflawnir hyn drwy adael i'r elusennau drin y gweithgaredd fel un busnes gradd sero.

Heb y consesiwn yma, ni fyddai'r elusennau yn gallu adennill y TAW a dalwyd pan brynwyd y nwyddau.

Digwyddiadau codi arian

Bydd y trydydd consesiwn yn fuddiol i'r elusen gan fod rhan o'r arian a fyddai wedi mynd i'r Trysorlys yn aros gyda'r elusen, ond mae ganddo'r anfantais o gloi unrhyw TAW, a bod yn gost i'r elusen.

Mae'r rheolau nawr yr un fath â'r 'Extra Statutory Consession C4 parthed treth incwm. Prif bryder yr awdurdodau treth yw bod y rhai sy'n mynychu yn ymwybodol eu bod yn ymweld â digwyddiad elusen, ac nad yw'r digwyddiadau yn cystadlu â gweithgareddau masnachol. Mewn theori, mae'r digwyddiadau eithriedig i fod yn rhai unigol, ond gall hyd at 15 digwyddiad o'r fath bob blwyddyn fod yn eithriedig. Enghreifftiau yw barbeciw, arwerthiant, gŵyl, cyngerdd, dawns neu ddisgo.

Unwaith bydd y consesiwn ar gael, bydd pob incwm sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad yn eithriedig, gan gynnwys:

- Tâl mynediad
- Arlwyo
- Gwerthiant nwyddau
- Noddi
- Gwerthiant hysbysebion. Mae'n bwysig fod noddi a hysbysebu yn rhan uniongyrchol o'r digwyddiad.

Ochr arall yr eithriad yma yw bydd y TAW a godir ar gostau'r digwyddiad unigol yn anadferadwy.

Nid yw argaeledd yr eithriad TAW yn effeithio ar statws treth uniongyrchol ar ddigwyddiadau o'r fath, ac os yw, er enghraifft, gwerthiant y tocynnaumynediad yn cynrychioli incwm masnachol.

TAW a noddi

Gall noddi achosi problemau TAW i elusennau. Gall noddi fod yn rhodd ddiffuant, yn bryniant masnachol neu'n gyfuniad o'r ddau. Yn bendant, os oes rhywbeth yn cael ei gyflenwi yn gyfnewid am gefnogaeth ariannol, gwnaethpwyd cyflenwad i'w drethu ar gyfer pwrpasau TAW.

Mae HMRC yn derbyn y gellir trin taliad a gydnabyddir yn unig fel rhodd ac felly tu allan i'r cwmpas. Os rhoddir cyfraniad i'r elusen ar yr amod yr hysbysebir neu hyrwyddir enw'r cwmni neu fasnach, ystyrir hyn yn hysbysebu, a thalir ar y radd sylfaenol gan yr elusen.

Yn ogystal, os yw'r cwmni yn derbyn budd arall yn ei le, er enghraifft, tocynnau i gyngerdd sydd ddim yn ddigwyddiad unigol eithriedig, bydd hwn hefyd yn radd sylfaenol gan yr elusen.
Ble bynnag mae yna elfen o rodd yn y taliad, efallai y gellir rhannu'r cyfanswm: rhoi'r cyflenwad sy'n talu TAW yn is-gwmni masnachol yr elusen, a'r elfen heb TAW yn yr elusen.
Os nad yw hyn yn bosibl, peth doeth fyddai rhoi'r pryniant drwy'r is-gwmni masnachol.

TAW a chardiau credyd affinedd

Mae'r incwm o gardiau credyd affinedd, drwy gonsesiwn anstatudol, yn bosib ei rannu. Bydd un rhan yn dâl am wasanaethau a ddarparwyd gan yr elusen, megis defnydd logo a rhestr bostio. Bydd y rhan arall yn rhodd i'r elusen am ddim yn gyfnewid.
Y rhannau arferol bydd 20% am wasanaethau, a 80% rhodd, ond bydd rhaid trafod y rhannu yn ofalus o fewn pob achos gyda chymeradwyaeth HMRC.

Rhestr Termau TAW

Treth Allosod - TAW a godir ar Werthiant Busnes Trethadwy

Treth Fewnbwn - TAW ar nwyddau a gwasanaethau a brynir gan gorff cofrestredig TAW

Treth Fewnbwn Adferadwy - Treth Fewnbwn a godir gan gorff cofrestredig TAW a ellir ei adfer.

Gwybodaeth bellach

HM Revenue and Customs (HMRC)
Ffôn: 0845 010 9000
www.hmrc.gov.uk

Charity Commission for England & Wales
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Charity Tax Group
www.ctrg.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:02/10/2007

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk